# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 26-08 (p1) : 5 Tachwedd 2008**

## Diben

1. Diben y papur hwn yw darparu ymateb i Bwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y gofynnwyd iddo adolygu'r ddeiseb a gyflwynwyd gan Pride in Barry.

### Deiseb Pride in Barry

2. Mae'r ddeiseb a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Pride in Barry yn amlinellu cais am swm o £2m y flwyddyn dros gyfnod o 10 mlynedd ar gyfer rhaglen i adfywio'r Barri, sy'n cynnwys opsiwn i dderbyn arian yn gynt ar unrhyw adeg pe bai ei angen ar brosiectau. Mae Pride in Barry yn gofyn i'r rhaglen gael ei hariannu gan gyfran Llywodraeth y Cynulliad o dderbyniad cyfalaf Cam II Glannau'r Barri.

3. Mae Pride in Barry yn sefydliad lleol anwleidyddol o breswylwyr lleol, arweinwyr busnes a sefydliadau cymunedol sy'n hyrwyddo Tref y Barri. Mae Pride in Barry yn ceisio ymrwymiad i ariannu rhaglen adfywio barhaus ar gyfer ardal Barri Fwyaf; sy'n cynnwys yr ardaloedd trefol allweddol Ynys y Barri, Canol Tref y Barri ac Ardal y Glannau.

### Cefndir

4. Yn 1994 sefydlwyd y Cyd-fenter rhwng Cymdeithas Porthladdoedd Prydain ac Awdurdod Datblygu Cymru i ddatblygu 190 erw o dir a elwir Glannau'r Barri. Roedd angen rhaglen adfer helaeth ar y glannau i lanhau'r halogi a oedd yn deillio o hanes y porthladd glo o ddiwydiant trwm. Ariannwyd hyn gan Raglen Adfer Tir Awdurdod Datblygu Cymru. Unodd Awdurdod Datblygu Cymru â Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2006 ac felly Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi cymryd y cyfrifoldeb am bob derbyniad ac atebolrwydd ar gyfer y cyd-fenter yn y dyfodol. Bydd y cyd-fenter yn parhau i fodoli i gyflawni'r uwchgynllun mewn partneriaeth â'r consortiwm ac i reoli ansawdd dylunio a defnydd tir drwy gadw'r diddordeb rhydd-ddaliad yn y tir. Tan fod y tir rhydd-ddaliadol wedi'i drosglwyddo, bydd yr atebolrwydd a'r gwaith cynnal a chadw yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Cymdeithas Porthladdoedd Prydain a Llywodraeth y Cynulliad.

5. Un o ddarpariaethau'r trefniadau cyfreithiol yw y caiff yr elw o werthu'r tir yng Nglannau'r Barri ei rannu rhwng Cymdeithas Porthladdoedd Prydain a Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel partneriaid y gyd-fenter, ar sail cyfanswm y buddsoddiad a wnaed gan y ddwy yn y prosiect. Caiff derbyniadau a hunangynhyrchir o werthu tir ac eiddo eu hailfuddsoddi ym mlaenoriaethau datblygu economaidd ac adfer ehangach Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ledled Cymru, yn unol ag anghenion ac amserlenni prosiectau. Mae'r rhan fwyaf o Adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn gweithredu o fewn y fframwaith hwn.

6. Mae Pride in Barry yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ail fuddsoddi ei rhan o'r dderbynneb gyfalaf yn y Barri er mwyn parhau â'r gwaith adfywio. Mae Pride in Barry yn amlygu'r ffaith bod prosiectau Newport Unlimited ac SA1 Abertawe wedi ailfuddsoddi eu derbynebau ac y dylai'r Barri allu gwneud yr un peth hefyd. Fodd bynnag, mae amgylchiadau unigryw sy'n berthnasol yn achos Casnewydd - lle roedd sefydlu'r Cwmni Adfywio Trefol, Newport Unlimited, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ei gwneud yn ofynnol i fabwysiadu ymagwedd benodol er mwyn sicrhau bod y cwmni yn gallu gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r cyfraniadau ariannol cychwynnol gan y cyrff sefydlu (Cyngor Casnewydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru gynt) ddod i ben. Mae enghraifft Abertawe yn wahanol ac nid yw'n darparu ar gyfer ailfuddsoddi derbyniadau cyfalaf fel y cyfryw - yn hytrach, mae'r trefniadau a sefydlwyd yn ei gwneud yn bosibl mewn rhai achosion i wariant hanfodol (er enghraifft ar wasanaethu/seilwaith) gael ei wrthbwyso yn erbyn gwerthu safle penodol i'w ddatblygu, ond dim ond o fewn yr un flwyddyn ariannol. Mae hyn yn adlewyrchu amgylchiadau penodol prosiect SA1, lle bu angen gwario ar seilwaith er mwyn paratoi lleiniau o dir i'w gwerthu.

7. Byddai cynnig 'Pride in Barry' yn ei gwneud yn ofynnol i gadw cronfa neilltuedig o £20m wrth gefn er budd prosiectau yn y Barri ac felly ni fydd ar gael i'w wario ar brosiectau eraill. Byddai hynny'n ddefnydd aneffeithlon o adnoddau Llywodraeth y Cynulliad ac yn arwain at werth gwael am arian. Pe bai cronfa o'r fath yn cael ei sefydlu, byddai'r cynnig am opsiwn i dderbyn arian yn gynnar yn amharu ar gynllunio cyllidebau a chyflawni rhaglenni yn flynyddol, gan flaenoriaethu prosiectau yn y Barri ar draul blaenoriaethau eraill ledled Cymru. Mae'r cynnig i ganiatáu cynllun i neilltuo arian yn groes i ganllawiau ariannol presennol Llywodraeth y Cynulliad sy'n darparu ar gyfer nodi gofynion cyllidebol dros raglen dreigl 3 blynedd ond cymeradwyo dyraniad cyllidebau adrannol yn flynyddol.

8. Fel rhan o Gyd-fenter y Barri (o dan y teitl Barry Action), mae Cyngor Bro Morgannwg wedi buddsoddi yn y gwaith o adfywio canol y dref yn ehangach. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi buddsoddi mewn cydosod y safle, gwaith adfer na seilwaith safleoedd yng Nglannau'r Barri a werthwyd yn ddiweddar i'r consortiwm tai. Felly nid oes unrhyw fodd i'r awdurdod dderbyn cyfran o'r elw o werthu tir y glannau ar gyfer gweithgareddau adfywio.

9. Mae'r bartneriaeth wedi buddsoddi tua £50m o arian cyhoeddus yn ardal y Barri Fwyaf gan sicrhau dros £100m o fuddsoddiad sector preifat. Ceir crynodeb isod o'r buddsoddiad a wnaed yn y Barri drwy'r bartneriaeth ers mis Ebrill 1994:-

Awdurdod Datblygu Cymru £27,321,000

Adran yr Economi a Thrafnidiaeth £1,487,000

Cyngor Bro Morgannwg £13,531,000

Llywodraeth ehangach y Cynulliad a Ffrydiau Ariannu Eraill £6,241,000

Y Loteri £1,394,000

Cyfanswm y Buddsoddiad **£49,974,000**

### Y Dull Adfywio

10. Prif ffocws yr ymdrech dros y 10 mlynedd diwethaf fu gwella tir cyhoeddus canol y dref er mwyn hyrwyddo hyder defnyddwyr a hyder busnes a lleihau colli masnach manwerthu. Canolbwyntiwyd hefyd ar wella'r cysylltiadau i gerddwyr rhwng canol y dref a'r glannau sydd wedi'u gwahanu gan Reilffordd Bro Morgannwg. Yn ogystal, buddsoddwyd mewn cydosod safleoedd a seilwaith ar gyfer y prosiect Rheilffordd Stêm er mwyn hyrwyddo treftadaeth y Barri a chynyddu nifer yr ymwelwyr.

11. Targedwyd y gwaith a gynhaliwyd yn ardal y Barri Fwyaf er mwyn gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd ffisegol, mynediad i wasanaethau a chyfleoedd creu swyddi ar gyfer y wardiau trefol sydd â'r angen mwyaf. Bydd yr adnewyddu ardaloedd tai ac adnewyddu masnachol a ddatblygir gan Gyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu ymhellach y gwaith a gwblhawyd hyd yma yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf. Bydd y Partneriaethau Cymunedol yn sicrhau bod cymunedau yn cymryd perchenogaeth ac yn gweithredu newid o'r bôn i'r brig yn y wardiau allweddol hyn.

12. Caiff gwaith i gyflawni gweithgareddau adnewyddu yn y dyfodol o fewn Bro Morgannwg ei lywio drwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol. Sefydlwyd y Bartneriaeth Adfywio yn ddiweddar a bydd yn gweithio gyda grŵp gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i fynd i'r afael â materion ehangach yn y Fro. Diben y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yw cael dull sector cyhoeddus cydgysylltiedig o fynd i'r afael â materion lleol a rhanbarthol.

### Strategaeth Adfywio

13. Mae Bwrdd Partneriaeth Adfywio'r Barri wedi cytuno ar raglen i gyflawni'r weledigaeth a amlinellir yn strategaeth URBED "Building A Brighter Barry" (Mawrth 2006), sy'n nodi gweledigaeth 15 mlynedd ar gyfer ardal y rhaglen. Lluniwyd rhaglen dreigl 3-5 mlynedd rhwng yr awdurdod a Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â'r materion allweddol a blaenoriaethu adnoddau.

14. Mae partneriaid yn parhau i ddatblygu'r cynllun gweithredu, ac adnewyddwyd yr ymdrechion hyn gyda'r newidiadau diweddar mewn Llywodraeth Leol a'r newid i wneud defnydd mwy strategol o adnoddau adfywio o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

15. Bydd gwerthu tir Cam 2 Glannau'r Barri yn darparu dros 2,000 o unedau preswyl a bydd yn darparu cynllun defnydd cymysg gwirioneddol gan greu cyfleusterau cyflogaeth, hamdden, manwerthu ac addysg. Bydd y cynllun hefyd yn darparu porth i Ynys y Barri a ddaw i fod y prif gyswllt strategol ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr. Mae gan y safle gyfleusterau trafnidiaeth ardderchog a gellir mynd iddo'n hawdd mewn car, ar fws, ar droed ac ar feic, a nod yr uwchgynllun fydd cefnogi a gwella'r cysylltiadau hyn lle bynnag y bo'n bosibl. Cyflawnir y prosiect gan y consortiwm tai a bydd yn sicrhau dros £250m o fuddsoddiad sector preifat dros gyfnod o tua 15-20 mlynedd. Bydd y cynigion ar gyfer y glannau yn unol â chanllawiau cynaliadwyedd ac ansawdd dylunio Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r nod o drawsnewid delwedd Ardal y Barri Fwyaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Porthladdoedd Prydain wedi cynnwys darpariaethau o fewn y contract gwerthu i gadw rheolaeth dros ansawdd dylunio. Bydd pob parti'n cydweithio'n agos i sicrhau y defnyddir cyfraniadau Adran 106 a Percentage for Art i'r eithaf wrth gyflwyno'r rhaglen hon.

16. Mae gan Gymdeithas Porthladdoedd Prydain uchelgais i greu a gweithredu marina yng Nglannau'r Barri, a chefnogwyd astudiaeth dichonoldeb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Bro Morgannwg i adolygu'r dichonoldeb a'r costau adeiladu cyfalaf cychwynnol. Casgliad yr astudiaeth yw y gellid gweithredu marina sy'n ariannol ddichonadwy yn y Barri gyda lle ar gyfer hyd at 650 o gychod. Mae angen gwneud gwaith pellach i fesur effaith y marina ar yr ardal o ran buddiannau economaidd, grwpiau a gaiff fudd ac effeithiau negyddol datblygiad o'r fath. Mae angen cynnal trafodaethau pellach â'r Consortiwm Tai, Cyngor Bro Morgannwg, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain a Llywodraeth y Cynulliad i adolygu'r gwaith o greu'r marina, y rhagwelir y bydd yn costio tua £15-£20m.

17. Cyngor Bro Morgannwg sy'n berchen ar yr Ardal Arloesi (tua 10 erw) ac fe'i prynwyd gyda chymorth Awdurdod Datblygu Cymru gynt. Mae'r safle'n cynnwys y Tŷ Pwmpio sy'n Adeilad Rhestredig Gradd II; fodd bynnag mae'r adeilad mewn cyflwr gwael ac mae Cyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo'r safle ar gyfer y celfyddydau a diwylliant ar gyfer preswylwyr y Fro ac er mwyn denu ymwelwyr i'r ardal.

18. Mae cynnig ar hyn o bryd ar gyfer Canolfan Gofal Sylfaenol newydd o fewn yr Ardal Arloesi sy'n cael ei ddatblygu gan y Sector Preifat, Cyngor Bro Morgannwg a Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni'r prosiect, mae angen gwella'r priffyrdd er mwyn sicrhau'r prosiect buddsoddi sector preifat gwerth £5m ac mae rhaglen ar gyfer y gwelliannau hyn yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd y gwelliannau hyn i'r priffyrdd yn sicrhau mynediad i'r Ardal Arloesi yn y dyfodol ac yn galluogi'r sector cyhoeddus i farchnata neu ddatblygu lleiniau datblygu.

19. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi Cyngor Bro Morgannwg gyda grant o £5.7m ar gyfer adeiladu Canolfan Ddysgu 14-19 yn yr Ardal Arloesi. Bydd y ganolfan yn darparu cyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol i gefnogi'r agenda dysgu a sgiliau a amlinellwyd yn y ddogfen ar Weledigaeth Strategol.

20. Dychwelwyd tendrau yn ddiweddar ar gyfer Pont Droed Thompson Street a fydd yn creu cyswllt strategol i gerddwyr rhwng canol y dref a'r glannau. Mae trefniadau bellach wedi'u gwneud gyda pherchenogion tir cyfagos i ganiatáu i'r prosiect sydd werth £2m fynd

rhagddo. Disgwylir i'r prosiect gychwyn cyn hir a'i gwblhau yn ystod gwanwyn 2010. Mae Pont Droed Thompson Street yn gysylltiedig â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r rhaglen Ardal Adnewyddu Tai gyda'r nod o atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y dref â'r glannau.

21. Mae rhaglen i wella tir y cyhoedd fesul cam yn parhau ar hyd Holton Road sydd â'r nod o wella'r amgylchedd manwerthu, denu ymwelwyr, siopwyr a gwella hyder busnesau yn yr ardal. Mae'r gwelliannau i ben isaf Holton Road bron wedi'u cwblhau a bydd y gwelliannau hefyd yn annog pobl i gerdded o Bont Gladstone a'r Glannau. Caiff cam 2 y gwaith hwn ei gwblhau yn ystod 2008/09.

22. Bydd yr Academi Hyfforddiant Technegol Amddiffyn a Pharc Awyrofod arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn creu nifer o gyfleoedd a heriau drwy'r camau adeiladu ac ôl adeiladu. Bydd yr Academi Hyfforddiant Technegol Amddiffyn yn weithredol tua 2012 a bydd y buddsoddiad gwerth tua £12bn yn sicrhau swyddi adeiladu o safon, swyddi hyfforddi/darlithio, staff cymorth, swyddi'r gadwyn gyflenwi/sector gwasanaeth a swyddi'r sector awyrofod gan ddod â budd i Fro Morgannwg a'r ardal gyfan. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a fforymau busnes cyfagos i godi ymwybyddiaeth o effeithiau posibl y prosiect a'r buddiannau a ddaw yn ei sgîl. Caiff y parc awyrofod ei adeiladu fesul cam drwy raglen 15-20 mlynedd ac yn y pendraw bydd yn creu tua 2,000 o swyddi o ansawdd. Nod y buddsoddiad yw cefnogi'r sector awyrofod cryf yng Nghymru, y caiff ei ystyried yn sector strategol ar gyfer twf wrth i'r galw am deithiau awyren gynyddu. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod y ddau brosiect ar y safle wedi'u hintegreiddio a bod dull darparu cyhoeddus cyd-gysylltiedig. Penodwyd ymgynghorwyr i ymchwilio i opsiynau trafnidiaeth er mwyn gwella mynediad i Faes Awyr Caerdydd a datblygiad METRIX yn Sain Tathan. Bydd hyn yn ystyried gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a/neu gysylltiadau o'r M4 a chyfarfu swyddogion â phob Awdurdod Lleol dan sylw i drafod y materion cynllunio sy'n gysylltiedig â'r opsiynau trafnidiaeth hyn.

23. Mae dull Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau dull cyfannol o adfywio gan dargedu anghenion cymdeithasol, ffisegol ac economaidd yr ardal gyfan gan ddarparu drwy bartneriaethau.

Crynodeb / Argymhellion

24. Gofynnir i'r Pwyllgor Menter a Dysgu beidio â chefnogi'r cais gan Pride in Barry i ailfuddsoddi cyfran Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r derbyniadau cyfalaf o werthu tir y Glannau. Dylid parhau â dull partneriaeth o gyflawni gwaith adfywio gyda'r nod o gyfrannu at amcanion 'Cymru'n Un' a chydweddu â blaenoriaethau Cynllun Gofodol Cymru.

25. Wrth ystyried y cais gan Pride in Barry, gallai'r Pwyllgor Menter a Dysgu osod cynsail i Lywodraeth Cynulliad Cymru ailfuddsoddi'r holl dderbyniadau cyfalaf yn yr ardal y daeth y derbyniadau ohoni. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar redeg rhaglenni yn y dyfodol sy'n darparu prosiectau ledled Cymru sy'n dibynnu ar dderbyniadau cyfalaf a buddsoddiad mewn ardaloedd llai ffyniannus o Gymru lle prin yw'r cyfleoedd ar gyfer buddsoddi sector preifat.

26. Bydd gwerthu tir Cam II y Glannau yn ddiweddar, y mae deiseb 'Pride in Barry' yn gysylltiedig ag ef, yn sicrhau £250m o Fuddsoddiad Sector Preifat pellach a bydd yn darparu safle deunydd cymysg gwirioneddol, gan sicrhau cyfleoedd cyflogaeth hamdden a masnachol, cyfleusterau addysg, manwerthu, mannau agored cyhoeddus a chymysgedd o unedau preswyl. Bydd y Gyd-fenter rhwng Cymdeithas Porthladdoedd Prydain a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i weithredu i reoli'r safle tan fod y les-ddaliad yn cael ei drosglwyddo i'r consortiwm ac y cyflawnir y targedau ansawdd dylunio a chynaliadwyedd.

27. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i weithio gyda Chyngor Bro Morgannwg i ystyried cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer Cam II Glannau'r Barri, Ynys y Barri a Chanol y Dref, a chynigion Sain Tathan. Bydd cyflawni'r cyfleoedd hyn yn newid delwedd a rôl y Barri o fewn cyd-destun De-ddwyrain Cymru a bydd gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth yn sicrhau y gwireddir y ffyniant hwn ar draws yr ardal.

28. Ar hyn o bryd, caiff prosiectau eu cyflawni drwy'r cylchau cynllunio busnes arferol, nad yw wedi atal unrhyw brosiect rhag mynd rhagddo. Mae angen datblygu cynllun adfywio integredig a fydd yn caniatáu ystyried prosiectau dros fwy nag un flwyddyn ariannol ac yn darparu hyblygrwydd at ddibenion cyllido. Mae angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gadarnhau'r effeithiau a'r blaenoriaethau ynghyd â strategaeth ymadael.

29. Mae'r buddsoddiad cyhoeddus o tua £50m yn ardal y Barri Fwyaf eisoes wedi sicrhau dros £100m o fuddsoddiad sector preifat ac mae wedi achosi newid sylweddol yn yr ardal. Mae ailddatblygu Neuadd y Dref, y Llyfrgell, y Parc Canolog a Sgwâr y Dref yn ddatblygiad blaenllaw y gellir ymfalchïo ynddo. Mae'r rhain, ynghyd â'r gwelliannau i'r strydlun a chysylltiadau â'r glannau wedi gwneud canol y dref yn lle mwy deniadol i ymwelwyr, siopwyr a manwerthwyr lleol.